



YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ pennaeth.parcybont@anglesey.gov.uk

Pennaeth Mewn Gofal / *Acting Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



17/10/16

Annwyl Rieni,

Mae'r gwasanaeth gwneud taliadau ar-lein bellach ar gael. Gallwch wneud taliadau yn yn uniongyrchol i'r ysgol gan ddefnyddio'ch cerdyn debyd neu gredyd, yn ogystal â chadw golwg ar faint yr ydych wedi ei dalu a'r hyn sy'n ddyledus. Bydd y system yma yn osgoi yr angen i anfon arian i'r ysgol gyda'ch plentyn gan atal y siawns i arian fynd ar goll, ac yn sicrhau hwylustod i chi fel rhieni. Rydym am ddechrau'r gwasanaeth drwy ei ddefnyddio i wneud taliadau cinio a'r Clwb Gwarchod boreuol.

Creu cyfrif

Bydd angen i chi gofrestru er mwyn creu cyfrif ar <https://porthysgol.ynysmon.gov.uk/> drwy glicio fel defnyddiwr newydd. Bydd angen i chi roi eich cyfeiriad e-bost a'r rhif symudol **sydd gennym wedi ei gofnodi ar eich cyfer yn yr ysgol**. Wedi i chi nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif symudol, dewisiwch y botwm 'anfon PIN', a bydd rhif PIN yn cael ei anfon i'ch ffôn symudol. Gallwch wedyn ddefnyddio'r rhif PIN hwn i logio i mewn i Borth yr Ysgol a gweld / gwneud taliadau.

Ceisiadau am dâl

Pan fo arian yn ddyledus i'r ysgol, byddwn yn gwneud cais am dâl ac yn anfon neges destun neu e-bost i'ch hysbysu o'r ddyled. Bydd rhaid i chi fewngofnodi i'ch cyfrif gan ddewis y cais/ceisiadau tâl yr ydych yn dymuno eu talu a chyflawni'r taliad.

Derbynebaw

Gallwch weld cofnod o'r taliadau yr ydych wedi eu gwneud ar-lein ac anfonir derbynebaw i'ch cyfeiriad e-bost cofrestredig ar gyfer yr holl drafodion a wnewch.

Diogel

Nid yw eich manylion cerdyn yn weladwy ac ni chânt eu cadw gan *Schoolcomms* neu system ysgol. Prosesir yr holl wybodaeth cardiau yn ddiogel gan Barclaycard. Rydych yn logio i mewn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost a [gofrestrwyd gyda'r ysgol](#) a gyda'ch rhif PIN.

Os fyddwch yn dymuno parhau i dalu ag arian parod yna gofynnaf yn garedig i chwi dalu am ginio'r wythnos ar **DDYDD LLUN** (£2.10 y dydd). Mae'n bwysig rhoi'r arian cinio **mewn amlen** gyda enw'r plentyn a'r dyddiau maent yn cael cinio wedi'i nodi. Os fydd eich plentyn yn absennol yn ystod yr wythnos, yna bydd y tâl yn cael ei nodi fel credyd ar gyfer yr wythnos ganlynol. Ni roddir newid. (Sicciau taliadau [cinio](#) yn daladwy i *Cyngor Sir Ynys Môn*).

Dylid bod yn amyneddgar gyda'r trefniant newydd ar y dechrau gan y bydd gwahanol broblemau yn siŵr o godi ac rydym yn hyderus y bydd yn sicrhau hwylustod i bawb yn yr hir dymor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â ni yn yr ysgol gan gyfeirio'ch ymholiadau at Mrs Pigott yr ysgrifenyddes o.g.y.dd.

Diolch am eich cydweithrediad ar y mater hwn.

Yn gywir,

Iwan Wyn Taylor